

Disgrifiad Rôl Gwirfoddol Gweithdy Gwaith

CYFRIFOL: RHEOLWR MENTRO MLAEN
ADRAN: MENTRO MLAEN – Gweithdy Gwaith
LLEOLIAD: CAERNARFON

Pwrpas y Rôl: I Wirfoddoli ym mhrosiect Mentro Mlaen i gynorthwyo rhedeg “Gweithdy Gwaith”

Beth ydi gweithdy gwaith: Cynllun gwaith am 16 wythnos sydd yn darparu hyfforddiant ac achrediadau i bobl ifanc i'w baratoi ar gyfer y byd gwaith. Bydd y sesiynau yn cynnwys hyfforddiant iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, sgiliau cyfrifiadur, cyllidebu ac yn y blaen.

Prif ddyletswyddau

- Cynorthwyo'r gweithwyr i gydlynu a rhedeg sesiynau gweithdy gwaith
- I fynd drwy hyfforddiant a llyfrau gwaith gyda phobl ifanc
- I roi cyngor a helpu'r mynychwyr i gwblhau'r sesiynau.
- I fod yn gyfeillgar a hyderus yn y sesiynau
- I gynorthwyo'r gyda'r gwaith trefnu ar gyfer sesiynau.

Manteision o wirfoddoli

- I ddysgu a datblygu sgiliau drwy brofiad ymarferol
- Datblygiad a/neu hyfforddiant personol a phroffesiynol
- Y gallu i archwilio gwahanol fathau o gyfleoedd gwaith yn wirfoddol
- Cyfle i fynd allan, cael hwyl a chwrdd â phobl newydd.
- Profi heriau newydd
- Cefnogi eich cymuned leol - rhoi rhywbeth yn ôl, boddhad personol gan wybod eich bod wedi helpu eraill
- Cryfhau eich CV.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol. Mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau

MANYLION PERSON - Gwirfoddolwr

Hanfodol
Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig
Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol
Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm
Yn hyblyg i weithio yn unol â gofynion y dyletswyddau sydd ynglŷn â'r rôl
Dymunol
Profiad o weithio gyda' helpu pobl ifanc
Profiad o godi arian i elusen
Addysg a phrofiad perthnasol i'r rol